

Cynnydd y Prosiect

Mae Griffiths yn adeiladu Cam 1 o Welliannau Teithio Llesol Church Road ac Isadeiledd Gwyrdd yng Nghil-y-coed. Dechreuodd ein gwaith, sy'n canolbwyntio ar dair ardal allweddol ar Church Road, yng nghanol mis Chwefror 2021. Ers hynny, rydym yn anffodus wedi dod ar draws oediadau annisgwyl o ran deunyddiau yn cyrraedd y safle ac o ganlyniad, mae cyflawni'r prosiect wedi'i effeithio'n sylweddol. Er yr heriau a wynebwyd, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn dda bellach yn y tair ardal ac rydym ar ein ffordd i gwblhau'r gwaith ar Church Road erbyn dechrau mis Mehefin 2021.

Mynedfeydd i Eglwys y Santes Fair a'r Castell a Pharc Gwledig - Rydym wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith gosod ymylon palmentydd a pharatoi'r llwybrau cerdded sydd bellach wedi ailagor ar y ddwy ochr i'r cyhoedd. Mae'r sets gwenithfaen hefyd wedi'u gosod ar draws y ffordd i greu bwrdd arafu uwch. Mae'r goleuadau traffig dros dro wedi'u tynnu i ganiatáu llyf traffig ddwy ffordd ac mae arwyddion cyngorol dros dro wedi'u gosod yn y lleoliad hwn i rybuddio modurwyr o'r nodwedd rheoli cyflymder newydd hon. Bydd yr holl arwyddion a marciau diogelwch parhaol y ffordd yn cael eu cyflawni wrth gwblhau'r gwaith wynebu.

Gât Ysgol Gynradd Parc y Castell ar Church Road - Drwy gydol fis Ebrill, gwnaethpwyd gwaith ar yr ochr ddeheuol, gan gynnwys draenio, gosod ymylon palmentydd, paratoi palmentydd a gosod sets gwenithfaen ar draws hanner y ffordd. Roedd hyn yn ein caniatáu ni i droi ein sylw at yr ochr ogleddol lle bydd y gwaith yn parhau drwy gydol fis Mai. Bydd y gwaith hwn yn union yr un peth bron i'r ochr ddeheuol, fodd bynnag, byddwn hefyd yn lledu'r llwybr troed ac yn gosod planwyr a pholion.

Gofod Cyrchfan The Cross i gyffordd Cross Close - Hyd yn hyn, rydym wedi paratoi'r manau parcio arfaethedig a'r platform byrddio bysiau newydd y tu allan i New Garden Chinese Takeaway a Touch of Class. Rydym hefyd wedi dechrau gwaith cloddio a draenio ar gyffordd Cross Close a thros y rhai wythnosau nesaf byddwn yn gosod ymylon palmentydd o graig naturiol, planwyr a phalmant i gwblhau'r nodweddion atgyfnerthu newydd.

Bydd y gwaith wynebu'r ffordd yn derfynol yn cael ei gwblhau ddechrau mis Mehefin a byddwn yn rhoi gwybod i chi y dyddiadau penodol a'r trefniadau rheoli traffig dros dro ar gyfer y gwaith hwn, cyn gynted â phosibl.



I'r chwith ac isod: Sets gwenithfaen ar draws y ffordd ger Eglwys y Santes Fair a Pharc Gwledig Cil-y-coed



Eisiau cysylltu â ni?

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich sylwadau. Eich Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y prosiect hwn yw Georgie Davies. Gallwch gysylltu â Georgie drwy:

T: 0330 0412 183*

E: georgie.davies@alungriffiths.co.uk

**Bydd rhaid talu cyfraddau ffonio cenedlaethol pan yn ffonio'r rhif yma a bydd galwadau yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau munudau cynhwysol llinellau tir a ffonau mudol.*

Gallwch hefyd gael y diweddaraf a chysylltu â ni drwy ein Tudalen We Gymunedol:

community.alungriffiths.co.uk/church-road-improvements-phase-1-caldicot/

Gallwch hefyd fynd i'n Tudalen We Gymunedol drwy sganio'r cod QR isod.

